

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU
21^{ain} GORFFENNAF 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:

Annwen Daniels
Erwyn Jones
Mel Goch ap Meirion
Ronwen D Roberts
Gareth W Jones

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. Parc Sglefrio

Cafwyd cais gan y Dref Werdd iddynt gael caniatâd i wneud cais am arian grant tuag at weithio gyda'r bobl ifanc sydd yn defnyddio'r Parc Sglefrio I roi graffiti newydd ar yr offer.

Argymell: I roi caniatâd i'r Dref Werdd wneud y cais.

2. Y Parc

Bydd angen llogi dwy sgip ar gyfer clirio'r canghennau yn dilyn torri'r gwrych. O ganlyniad i'r Parc ennill statws y Faner Werdd gofynnwyd am gael polyn fflag fechan ar y pafiliwn i chwifio'r faner.

Argymell: I ganiatáu llogi dwy sgip pryd fydd y gwrych wedi ei dorri ac i wneud ymholiadau os oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer gosod polyn fflag fechan ar y pafiliwn. I archebu'r polyn os na fydd angen caniatâd cynllunio.

3. Tir gan Gyngor Gwynedd

Oherwydd yr angen i edrych yn fanwl ar bob agwedd o dderbyn y tir sydd wedi ei gynnig gan Gyngor Gwynedd I'w drafod ymhellach ym mis Medi.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth

4. Ysgoloriaeth Patagonia

Mae'r Cyngor Tref yn barod wedi neilltuo arian ar gyfer yr ysgoloriaeth ac wedi trefnu beirniad at gystadleuaeth 2017. Roedd y Cynghorydd Bedwyr Gwilym wedi ei ddal yn ôl yn y gwaith felly cytunwyd i drin y man manylion ar gyfer yr Ysgoloriaeth ym mis Medi.

Argymell: I'w drafod ymhellach ym Mis Medi.

Bu i'r Cynghorydd Bedwyr Gwilym gyrraedd y cyfarfod

5. Meinciau

Mae angen gwneud archwiliad o gyflwr yr holl feinciau yn yr ardal. Er bod cytundeb wedi ei osod ar gyfer eu peintio nid yw'r Gwaith wedi ei wneud hyd yn hyn. Cafwyd gwybodaeth bod y gwair wedi côr dyfu wrth y fainc yn Dolrhedyn.

Argymell: Y Cynghorwyr i edrych ar y meinciau o fewn eu wardiau ac adrodd yn ôl ym mis Medi. I drefnu i dorri'r gwair wrth y fainc yn Dolrhedyn.